Annwyl Aelodau,

**CRYNODEB O'R CYFARFOD BWRDD A GYNHALIWYD AR 18 MAI 2023**

Cyfarfu Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ddydd Iau 18 Mai, yn dilyn cyfarfodydd â grwpiau sy'n cynrychioli'r Aelodau a staff cymorth, a sesiynau 'galw heibio' a gynhaliwyd gydag Aelodau ar 17 Mai. Mae'r llythyr hwn yn darparu crynodeb o drafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Bwrdd, ynghyd â chrynodebau o gyfarfodydd blaenorol.

## Rhaglen waith strategol

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ynghylch cynnydd yr adolygiadau thematig sy'n cael eu cynnal, a chytunodd i gyhoeddi ei raglen waith strategol ar wefan y Bwrdd Taliadau.

### *Y wybodaeth ddiweddaraf am ddiwygio'r Senedd*

Trafododd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am ddiwygio'r Senedd, gan grybwyll y meysydd yr hoffai eu harchwilio ymhellach fel rhan o'i raglen waith strategol. Cytunodd y Bwrdd i ysgrifennu at y Llywydd yn nodi'r materion amrywiol a gafodd eu codi gan Aelodau sydd efallai'n croestorri â'r gwasanaethau a ddarperir gan y Comisiwn; byddai'n ddefnyddiol i'r Cadeirydd drafod y materion hyn â'r Llywydd fel rhan o'r ddeialog sy'n digwydd parthed y materion sydd o fewn eu cylchoedd gwaith priodol.

### *Yr Adolygiad o Drefniadau Staffio: Cyflogau a Graddfeydd*

Trafododd y Bwrdd y fanyleb ddrafft ar gyfer y contract i gaffael sefydliad allanol i gynnal adolygiad o'r fframwaith cyflogau a graddfeydd presennol ar gyfer staff cymorth yr Aelodau a staff y grwpiau. Bydd yr adolygiad yn nodi unrhyw faterion ar gyfer y tymor byr ac unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud mewn perthynas â fframwaith cyflogau a graddfeydd y staff er mwyn llywio'r Penderfyniad ar gyfer y Senedd nesaf.

Trafododd y Bwrdd yr adolygiad â'r grŵp sy'n cynrychioli'r staff ddydd Mercher 17 Mai. Bydd yn ymgysylltu â'r Aelodau, staff cymorth yr Aelodau, staff y grwpiau ac undebau llafur yn ystod y broses adolygu. Dros yr haf, bydd ymarfer ymgysylltu anffurfiol yn cael ei gynnal â'r grŵp sy'n cynrychioli'r staff (gan gynnwys yr undebau). Yna, bydd gweithgarwch ymgysylltu ehangach yn cael ei gynnal ag Aelodau a staff cymorth yn ystod tymor yr hydref.

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

*Adolygiad symleiddio*

Nododd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf, gan dynnu sylw penodol at y cyd-ddibyniaethau ag adolygiadau thematig eraill a’r risgiau sy'n codi. Nododd y Bwrdd fod system cyflogau a hawliadau y tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau yn fater i Gomisiwn y Senedd, ac y byddai’r tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau yn darparu’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Bwrdd am unrhyw newidiadau arfaethedig i’r system.

**Adroddiad Blynyddol 2022-23 – Digwyddiad ymgysylltu ag Aelodau a staff cymorth ym mis Gorffennaf**

Cytunodd y Bwrdd ar yr adroddiad drafft, a rhoddodd gyfarwyddiadau ynghylch y dull o’i gyflwyno.

Cytunodd hefyd i gynnal digwyddiad rhithwir ar gyfer yr holl Aelodau a'u staff cymorth er mwyn rhoi cyfle i bawb ymgysylltu ynghylch adroddiad blynyddol y Bwrdd ar ei raglen waith strategol, ac i ystyried gwaith y Bwrdd am weddill ei dymor.  Bydd rhagor o fanylion yn cael eu rhannu ag Aelodau a staff cymorth ym mis Mehefin.

**Materion eraill**

*Cynllun gweithredu ynghylch yr ymateb i’r Adolygiad Effeithiolrwydd*

Yn sgil cyhoeddi’r adroddiad ar yr Adolygiad Effeithiolrwydd, ynghyd ag ymateb y Bwrdd ar 12 Ebrill 2023, nododd y Bwrdd y cynllun gweithredu, gan gynnwys ymrwymiad i adrodd ar y cynnydd a wneir a'i adolygu'n flynyddol, a chytunodd arno.

Roedd yr Adolygiad yn argymell cyhoeddi 'Siarter' ar gyfer y Bwrdd. Trafododd y Bwrdd y ddogfen gyfredol ynghylch egwyddorion llywodraethu a’r canllawiau ar gynnal busnes. Cytunodd y Bwrdd i ddrafftio gwelliannau amrywiol, gan gynnwys rhagor o fanylion am weithio gyda Chomisiwn y Senedd. Bydd y rhain yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf cyn cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o’r ddogfen. Cytunodd y Bwrdd y dylid adolygu a chyhoeddi’r ddogfen yn ffurfiol ar ddechrau tymor pob Bwrdd newydd.

*Recriwtio Cadeirydd y Bwrdd Pensiynau*

Nododd y Bwrdd fod Jill Youds, Cadeirydd Ymddiriedolwyr y Bwrdd Pensiynau ar gyfer Cynllun Pensiwn yr Aelodau, wedi ysgrifennu at y Bwrdd i’w hysbysu am y ffaith y bydd yn ymddeol o'i rôl fel Cadeirydd yn nhymor yr hydref. Cytunodd y Bwrdd i recriwtio rhywun yn ei lle, a diolchodd iddi am ei blynyddoedd o wasanaeth gwerthfawr i Gynllun Pensiwn yr Aelodau. Cytunodd y Bwrdd y bydd yr ymarfer recriwtio yn cael ei gynnal gan dîm Adnoddau Dynol y Comisiwn, ac y bydd aelodau'r panel yn cynnwys aelod o'r Bwrdd, y Pennaeth Pensiynau ac

uwch aelod o staff yr adran Adnoddau Dynol.

*Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru*
Yn dilyn penderfyniad y Senedd i sefydlu Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru, cytunodd y Bwrdd y byddai'n aros am ragor o wybodaeth am gylch gwaith, aelodaeth a rhaglen waith y Pwyllgor cyn gwneud penderfyniad ar gyflog y Cadeirydd.

Cewch y wybodaeth ddiweddaraf am hyn ar ôl pob cyfarfod o'r Bwrdd. Yn y cyfamser, os ydych yn dymuno codi unrhyw fater gyda mi neu'r Bwrdd, mae croeso i chi gysylltu drwy anfon e-bost at taliadau@senedd.cymru.

Yn gywir,

**Dr Elizabeth Haywood**

**Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.